TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# CITB Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch Site Safety Plus



### Yn gryno

Mae yna lawer o beryglon posibl wrth weithio ar safle, ac mae'r cwrs hwn yn rhoi cyngor ymarferol ar gadw eich hun a'ch cydweithwyr yn ddiogel. Mae'n cwmpasu eich cyfrifoldebau chi fel unigolyn a chyfrifoldebau eich cyflogwr, gan gynnwys beth allech ei wneud os ydych yn meddwl fod iechyd a diogelwch unrhyw un yn cael eu peryglu.

### Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu a pheirianneg sifil

...yn eich darparu gyda'r dystiolaeth sydd arnoch ei hangen i wneud cais am gerdyn gwyrdd/labrwr CSCS, ynghyd â Phrawf Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd CITB

### Cynnwys y cwrs

Hyd y cwrs yw 1 diwrnod (7 awr), ac wedi'i gynllunio i roi dealltwriaeth i chi o:

yr angen i atal damweiniau
cyfraith iechyd a diogelwch
sut mae eich rôl yn cyd-fynd â rheoli a rheolaeth y safle
asesiadau risg a datganiadau dull
perfformio’n ddiogel a gofyn am gyngor
sut i adrodd ar weithredoedd anniogel er mwyn atal damwain

Cewch eich asesu trwy gwestiynau amlddewis, a’ch lefel o ryngweithio yn ystod y cwrs.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Y cam naturiol nesaf ar ôl cwblhau’r cwrs fyddai symud ymlaen i’r cwrs Cynllun Hyfforddiant Diogelwch Goruchwylydd Safle (SSSTS).